# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Wendy Williams**

**Amlwch**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 15 May 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Wendy Williams wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 4 plentyn o dan 12 oed yn ei chartref yn Amlwch, Ynys Môn. Mae'n byw mewn eiddo mawr ar wahân gyda'i gŵr a'i phlant, sydd o fewn pellter cerdded rhwydd i'r ysgol a'r amwynderau lleol. Gall y plant ddefnyddio'r lolfa fawr, y gegin/ardal fwyta yn yr heuldy a'r toiled ar y llawr gwaelod. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 8:00am a 6:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Prif iaith y gwasanaeth yw Saesneg ac nid yw'r gwasanaeth yn rhoi Cynnig Rhagweithiol ar waith ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn hapus, wedi setlo ac yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u dewisiadau, ond gellid gwneud rhywfaint o newidiadau i'r ffordd y caiff datblygiad y plant ei nodi er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu a'u monitro'n effeithiol. Gofelir am y plant mewn amgylchedd cyfforddus a chartrefol ac mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer eu datblygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn ddyddiol ac mae'n ymwybodol o'i chyfrifoldebau ond mae angen iddi wneud rhywfaint o welliannau i'w datganiad o ddiben er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn.

### 2. Gwelliannau

Ni wnaethom nodi bod unrhyw welliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwarchodwr plant yn cydymffurfio â'r rheoliadau mewn perthynas â'i datganiad o ddiben (rheoliad 15).

Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion yn ymwneud ag olrhain datblygiad y plant, cadw cofnodion, storio teganau a sicrhau bod polisïau, asesiadau risg ac ansawdd y gofal yn cael eu dyddio a'u hadolygu'n flynyddol.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel ac maent wedi creu cysylltiadau agos â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn chwilfrydig i archwilio eu hamgylchedd. Mae'r plant yn meithrin cyfeillgarwch ac yn dysgu i aros eu tro a rhannu gyda'u cyfoedion.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y staff yn gwrando arnynt a chânt gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau.

Roedd y plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau. Roeddent yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i ofyn am deganau penodol. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn am y blwch a oedd yn cynnwys y blociau adeiladu o'r uned storio, ac ymatebodd y gwarchodwr plant yn gyflym i'w gais. Roedd y plant yn rhydd i ddewis y gweithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt, a gallent gael gafael ar y rhan fwyaf o adnoddau yn annibynnol. Roedd y plant yn hyderus i fynegi eu hunain ac roeddent yn gwybod y byddai'r gwarchodwr plant yn gwrando arnynt. Er enghraifft, wrth ddarllen stori gyda'i gilydd, roedd y plant yn hyderus i gynnig syniadau ynglŷn â pham fod cymeriadau'r stori yn teimlo'n drist. Gwrandawodd y gwarchodwr plant yn astud ar yr hyn roedd gan y plant i'w ddweud gan gydnabod a pharchu eu barn.

Mae'r plant yn hyderus i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac yn teimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu barn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r gwarchodwr plant ac roeddent yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus. Aeth un plentyn at y gwarchodwr plant pan oedd yn teimlo ychydig yn swil, ond setlodd yn gyflym ar ôl i'r gwarchodwr plant ei gofleidio a thawelu ei feddwl. Yn ddiweddarach, roeddent yn hyderus i ddod atom ac yn awyddus i ddangos y teganau roeddent yn chwarae gyda nhw ac adrodd hanesion eu bore yn y pwll nofio, sy'n dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Roedd yn amlwg bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyflawniadau yn cael eu dathlu. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i ddangos i'r gwarchodwr plant eu bod wedi cwblhau gweithgaredd lliwio ac roeddent yn wên o glust i glust wrth i'r gwarchodwr plant ganmol eu hymdrechion.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod wedi meithrin cydberthynas agos â'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn dechrau rhannu a chymryd eu tro yn briodol.

Roedd y plant yn hapus yn chwarae gyda'i gilydd ac yn dechrau meithrin cyfeillgarwch. Gwnaeth dau blentyn chwarae'n ddychmygus ac esgus bod ganddynt bwerau hud ac y gallant rewi pobl. Gwnaethant roi cyfarwyddiadau i'w gilydd a galw i nodi tro eu ffrind. Yn hwyrach y prynhawn hwnnw, gwnaethant fwynhau siglo gyda'i gilydd ar y teganau siglo. Gwnaethant alw a chanu *'see saw'* at ei gilydd ac roeddent yn awyddus i gynnwys ei gilydd yn eu chwarae. Roedd y plant hefyd yn gallu rhannu teganau a chymryd eu tro yn briodol. Er enghraifft, daeth y plant â llyfr swnllyd at y gwarchodwr plant er mwyn iddi ddarllen y stori iddynt. Gwnaeth y ddau ohonynt eistedd ar ei glin a mwynhau edrych ar y llyfr gyda'i gilydd, gan wrando'n astud wrth iddi ddarllen y stori ac aros yn amyneddgar i gymryd eu tro i bwyso'r botymau a oedd yn chwarae'r synau.

Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch â'u cyfoedion ac maent yn cydweithio'n dda.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn rhydd i archwilio'r amgylchedd ac maent yn ymddiddori yn yr adnoddau a'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Roedd amrywiaeth addas o weithgareddau ar gael i'r plant ddewis ohonynt. Roedd y plant yn gallu dilyn eu diddordebau a chyfeirio eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, gwnaeth y ddau blentyn chwarae gyda'i gilydd gyda'r doliau am gyfnod estynedig. Gwnaethant fwynhau eu chwarae dychmygus a gwnaethom glywed llawer o chwerthin a sgwrsio hapus wrth iddynt drafod yr hyn roedd y babanod yn ei wneud. Roedd un plentyn yn mwynhau chwarae gyda'r cerbydau tegan. Gwnaethant chwarae'n ddychmygus, gan archwilio'r cerbydau gwahanol, eu rholio ar hyd y mat a chanu'n hapus i'w hunain wrth chwarae. Daeth plentyn arall â llyfr arall at y gwarchodwr plant. Aeth y ddau ohonynt ati i ganu'r gân o'r llyfr gyda'i gilydd ac ymunodd y plentyn â synau ac ystumiau. Roedd y plant yn amlwg yn mwynhau'r gweithgaredd hwn gan fod llawer ohonynt yn gwenu ac yn chwerthin a gwnaethant ofyn am gael canu'r gân eto pan ddaeth i ben.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a gallant ganolbwyntio ar dasg am gyfnod priodol o amser.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol, a rhoddir amser iddynt ddysgu sut i wneud pethau yn eu hamser eu hunain.

Roedd gan y plant ddiddordeb yn y gweithgareddau chwarae o'u dewis drwy gydol ein hymweliad ac roeddent yn sgwrsio ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'w gilydd o ran beth i'w wneud nesaf. Anogwyd y plant i wneud pethau drostynt eu hunain ac i gwblhau tasgau hunangymorth yn annibynnol. Er enghraifft, anogwyd y plant i ddefnyddio'r toiled, golchi eu dwylo yn annibynnol a chael gafael ar adnoddau pryd bynnag roeddent am wneud hynny. Rhoddwyd digon o amser yn ystod gweithgareddau i sicrhau bod y plant yn gallu eu cwblhau ar eu cyflymder eu hunain.

Mae'r plant yn hyderus am eu bod yn cael eu hannog i ddysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn ymateb i anghenion unigol yn effeithiol. Mae'n darparu gofal magwrus ac yn adnabod anghenion unigol y plant yn dda, ond gellid gwneud gwelliannau o ran y ffordd y caiff gweithgareddau eu trefnu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i wneud dewisiadau iach ac mae wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau eu diogelwch.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'r ffordd i ddiogelu plant ac o weithdrefnau diogelu. Mae wedi cael hyfforddiant diogelu plant a chymorth cyntaf pediatrig, sy'n golygu bod y gwarchodwr plant yn gwybod sut i weinyddu cymorth cyntaf sylfaenol pan fo angen ac ymdrin ag argyfyngau.  Roedd damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi mewn dyddiadur ac yn cael eu llofnodi gan rieni. Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi'n briodol, er y gwnaethom drafod yr angen i gynnwys amser yr ymarfer tân yn y cofnodion hyn.

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo hylendid da o ran amseroedd byrbryd a chinio; cafodd y byrddau eu sychu cyn bwyta er mwyn sicrhau eu bod yn lân, a chafodd y plant eu cefnogi i olchi eu dwylo er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi. Roedd sebon hylif a thywelion papur neu glytiau ymolchi unigol ar gael i'r plant yn yr ystafell ymolchi. Ni welsom y gwarchodwr plant yn newid cewyn unrhyw blentyn, ond gwnaethom drafod y weithdrefn a ddilynwyd a gwelsom ei bod yn unol ag arfer gorau presennol.

Mae mesurau priodol ar waith gan y gwarchodwr plant er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn ei gofal ac mae'n dangos ymddygiad da.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda'r plant yn ei gofal. Siaradodd â'r plant mewn ffordd gyfeillgar a digynnwrf, gan ddangos cynhesrwydd ac agosatrwydd gwirioneddol. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac yn datblygu eu hunan-barch. Roedd y polisi rheoli ymddygiad yn disgrifio sut yr ymdrinnir ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd gadarnhaol. Roedd hyn hefyd yn cael ei ail-bwysleisio drwy ein harsylwadau. Atgoffwyd y plant yn dawel o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, atgoffwyd dau o'r plant hŷn i fod yn ofalus wrth chwarae wrth ymyl baban. Eglurodd y gwarchodwr plant hyn mewn ffordd ddealladwy i'r plant a gwnaethant ymateb yn gadarnhaol i gais y gwarchodwr plant. Roedd y plant yn eu hailgyfeirio at weithgareddau

eraill pan sylwodd y gwarchodwr fod y plant yn aflonyddu neu'n cynhyrfu. Roedd hwn yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi llesiant emosiynol y plant drwy ddefnyddio dulliau addas i sicrhau bod y plant yn hapus ac wedi setlo.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd meithringar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant.

Yn ystod trafodaethau â'r gwarchodwr plant, roedd yn glir ei bod yn deall bod angen darparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu ar gyfer y plant. Roedd yn darparu gofal magwrus ac ymatebol i'r plant. Fe'i gwelsom yn gofalu am y plant iau mewn ffordd ystyrlon ac yn eu cofleidio a rhoi sicrwydd iddynt yn ôl yr angen. Roedd yn annog y plant yn ystod eu chwarae ac yn gofyn cwestiynau syml. Er enghraifft, gwnaeth eu hannog i adeiladu gwrthrychau gyda'r blociau adeiladu a gofyn cwestiynau syml am yr hyn roeddent yn ei wneud. Roedd amserlen ar waith ar gyfer gweithgareddau megis amser stori yn y llyfrgell a sesiynau nofio i blant bach. Nid oedd unrhyw gynlluniau gweithgareddau ffurfiol ar waith ar gyfer yr adegau a dreulir yn ei chartref. Roedd yn amlwg bod y gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddewisiadau'r plant, er enghraifft yr hyn roeddent yn hoffi ei fwyta yn ogystal â'r hyn roeddent yn hoffi ei wneud. Roedd ffeiliau'r plant yn cynnwys cofnodion yn nodi dewisiadau'r plant er mwyn i'r gwarchodwr plant allu diwallu eu hanghenion unigol. Roedd y gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni'r plant iau naill ai ar lafar neu drwy negeseuon gwib ar y cyfryngau cymdeithasol, gan roi gwybod iddynt am gynnydd eu plentyn a'r gweithgareddau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt y diwrnod hwnnw. Fodd bynnag, nid oedd prosesau ffurfiol ar waith er mwyn olrhain cynnydd neu gam datblygu'r plant hŷn. Gwnaethom egluro y byddai cadw cofnodion o gam datblygu neu anghenion pob plentyn yn fuddiol iddynt. Gellid defnyddio'r cofnodion hyn i gynllunio gweithgareddau chwarae a dysgu'r plant yn y dyfodol a byddent yn nodi'r meysydd lle y byddai angen mwy o gymorth ar y plant o bosibl, neu'n nodi'r plant mwy galluog sydd angen nodau mwy uchelgeisiol ac yn darparu tystiolaeth fod y plant yn cael profiad o amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo eu datblygiad yn gyffredinol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal magwrus ond mae angen iddi gofnodi ei harsylwadau i gefnogi datblygiad y plant.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r plant ag amrywiaeth eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant a'u camau datblygu. Roedd yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel lle mae plant yn gallu chwarae ac archwilio ardaloedd gwahanol yn ddiogel.

Roedd y safle a'r ardd yn ddiogel, ac roedd y drysau i'r safle yn cael eu cadw dan glo i atal mynediad diawdurdod. Gofynnwyd i ni ddangos ein cardiau adnabod wrth gyrraedd a dangosodd y gwarchodwr plant ei llyfr ymwelwyr i ni. Roedd y peryglon i'r plant wedi cael eu nodi a rhoddwyd mesurau ar waith i'w rheoli neu eu dileu lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft, roedd y rheiddiaduron wedi'u gorchuddio i atal y plant rhag llosgi. Roedd asesiadau risg ar gael ar gyfer yr holl ardaloedd a oedd yn cael eu defnyddio gan y plant ac ar gyfer teithiau rheolaidd. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn adolygu'r rhain yn rheolaidd ond nid oedd cofnod o hyn. Gwnaethom gynghori’r gwarchodwr plant i gofnodi pryd y caiff yr asesiadau risg eu hadolygu neu eu diweddaru er mwyn ei gwneud yn haws iddi fonitro bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod diogelwch y plant yn flaenoriaeth, a bod y mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, a lle y bo'n bosibl, eu dileu.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd cartrefol ac sydd mewn cyflwr da.

Roedd gan y plant ystafell chwarae fawr a oedd â digon o le iddynt symud o amgylch a chwarae neu eistedd a gorffwys ar gelfi cyfforddus. Hefyd, roedd y plant yn gallu eistedd wrth fwrdd a chadeiriau o faint addas ar gyfer plant i gwblhau gweithgareddau crefft, neu wrth y bwrdd bwyd gyda'r gwarchodwr plant. Roedd blychau storio ar lefel isel yn galluogi'r plant i gael gafael ar rywfaint o deganau ac adnoddau yn annibynnol, er y byddai labeli yn gwella profiadau chwarae'r plant ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau yn haws, gan hyrwyddo eu hannibyniaeth. Roedd gardd ddiogel yn yr awyr agored ar gael i'r plant chwarae ynddi, ond eglurodd y gwarchodwr plant nad oeddent wedi'i defnyddio eto eleni ac y byddai'n archwilio'r holl gyfarpar a'r ardaloedd cyn i'r plant ddefnyddio'r ardal hon. Dywedodd eu bod wedi bod yn ymweld â'r iard chwarae gyfagos yn y cyfamser er mwyn rhoi cyfle i'r plant chwarae yn yr awyr agored a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd cartrefol sy'n addas i anghenion y plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod dodrefn, teganau ac adnoddau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Gwelsom fod amrywiaeth foddhaol o adnoddau chwarae a dysgu ar gael a oedd yn addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant, megis adnoddau adeiladu, deunyddiau crefft a gemau. Roedd yr adnoddau wedi'u cadw'n drefnus mewn blychau ac yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd y rheini a oedd allan o gyrraedd y plant wedi'u storio'n dda a chawsant eu rhoi i'r plant pan oeddent yn gofyn amdanynt yn syth. Roedd grisiau a photiau ar gael yn yr ystafell ymolchi i hyrwyddo annibyniaeth y plant ac i'w dysgu sut i ddefnyddio'r toiled. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y teganau'n cael eu glanhau'n rheolaidd â chlytiau neu chwistrell gwrthfacterol, er nad oedd hyn wedi'i gofnodi. Gwnaethom drafod bod angen i'r gwarchodwr plant gofnodi pa mor aml roedd yn glanhau'r adnoddau a'r cyfarpar.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau a chyfarpar boddhaol i'r plant.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol, wedi'i chymhwyso'n briodol ac yn deall pa welliannau sydd angen eu gwneud i redeg y gwasanaeth yn fwy effeithiol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth. Caiff gwybodaeth ei rannu'n rheolaidd â'r rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd eu plant.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn deall bod angen iddi fynd i'r afael â rhai meysydd o'r gwasanaeth.

Roedd y gwarchodwr plant wedi llunio datganiad o ddiben nad oedd yn adlewyrchu'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg ar hyn o bryd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn diweddaru'r ddogfen hon ar hyn o bryd i adlewyrchu'r newidiadau diweddar yn y gwasanaeth. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pob agwedd berthnasol ar redeg y gwasanaeth. Roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn darparu'r holl wybodaeth a fyddai ei hangen ar y rhieni am bob agwedd ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau arnynt. Gofynnwyd i'r gwarchodwr plant sicrhau eu bod yn cael eu dyddio i ddangos eu bod wedi'u hadolygu'n flynyddol.

Gwelsom o gofnodion ysgrifenedig fod y gwarchodwr plant wedi gofyn i'r rhieni lenwi ffurflenni cofrestru a chontractau cyn i'w plentyn ddechrau. Roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd y rhieni hefyd wedi llofnodi slipiau caniatâd ar gyfer sawl agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir i'r plant, gan gynnwys ar gyfer ffotograffau, teithiau, rhoi meddyginiaeth, defnyddio eli haul a chymorth cyntaf. Roedd ffeiliau'r plant yn gynhwysfawr ac yn cynnwys manylion am eu hoff a chas bethau, a'u trefn ddyddiol arferol.

Yn gyffredinol, mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn briodol ond mae angen iddi wella rhai ymarferion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn llawn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau ar waith i adolygu ansawdd ei gwasanaeth.

Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd wedi derbyn unrhyw bryderon am y gofal mae'n ei ddarparu. Dangoswyd adroddiad i ni yn adolygu ansawdd y gofal. Cafodd ei ysgrifennu mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd gan y plant a'r rhieni ac roedd yn cynnwys y camau gweithredu dilynol i'w cymryd i wella'r gwasanaeth. Nododd y gwarchodwr plant fod yr adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ond nid oedd dyddiad arno. Gwnaethom gynghori'r gwarchodwr plant i gynnwys dyddiad yr adolygiad er mwyn dangos bod adolygiad wedi'i gynnal yn flynyddol fel sy'n ofynnol.

Mae'r gwarchodwr plant yn croesawu adborth ar ei gwasanaeth ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n diwallu anghenion y plant a'u rhieni.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn deall ei chyfrifoldebau wrth reoli'r gwasanaeth.

Roedd y gwarchodwr plant yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithio yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd gan y gwarchodwr plant a'r oedolion dros 16 oed a oedd yn byw yn y gwasanaeth dystysgrifau dilys a chyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd hyn yn dangos ei bod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n dod i gysylltiad â'r plant wedi cael y gwiriadau perthnasol.

Cafodd y gwarchodwr plant drafferth yn dod o hyd i rai o'r dogfennau y gwnaethom ofyn i'w gweld gan nad oedd trefn dda arnynt. Gwnaethom drafod hyn a'i chynghori y byddai cael system briodol yn sicrhau y gallai gael gafael ar ddogfennau pwysig yn hawdd, a lleihau'r risg o golli dogfennau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau yn briodol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn mwynhau cysylltiadau da â'r gymuned ac yn cael cyfleoedd i gymdeithasu â phlant eraill sy'n byw gerllaw.

Roedd y gwarchodwr plant yn hawdd mynd ati a dywedodd wrthym ei bod wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â'r rhieni. Gwelsom ei bod yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni'r plant iau ar ffurf negeseuon testun neu wasanaethau negeseuon gwib, gan eu bod yn ffafrio hyn yn hytrach na defnyddio dyddiaduron. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar lafar â rhieni'r plant hŷn ar ddiwedd pob diwrnod. Roedd hyn yn sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau roedd eu plant wedi cymryd rhan ynddynt, beth roeddent wedi'i fwyta a'u hwyliau'n gyffredinol. Gwnaethom drafod y gallai'r gwarchodwr plant gadw cofnod personol o ddiwrnodau'r plant er mwyn cyfeirio yn ôl ato os bydd angen a gwella'r bartneriaeth â'r rhieni. Dywedodd y plant a'r gwarchodwr plant wrthym am y ffordd roeddent yn defnyddio'r amwynderau lleol, fel y siop a'r parc yn rheolaidd ac yn mwynhau ymweld â gweithgareddau lleol yn wythnosol, gan gynnwys amser stori yn y llyfrgell, sesiynau nofio i blant bach, sesiynau Cymraeg a grwpiau plant bach. Roedd hyn yn galluogi'r plant i gymdeithasu â phlant eraill yr un oedran sy'n byw yn yr ardal ac yn gwella eu datblygiad cymdeithasol.

Mae gan y gwarchodwr plant gysylltiadau da â'r gymuned ac mae wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant hefyd nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r mater hwn gan na welsom unrhyw dystiolaeth y tro hwn ei fod yn cael effaith andwyol ar lesiant y plant. Fodd bynnag, rhaid i'r gwarchodwr plant gymryd camau i ymdrin â'r mater hwn:

**Cafwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010,* Rheoliad 15:**

Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod datganiad o ddiben y gwasanaeth yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Nid oedd hyn yn wir ar adeg yr arolygiad gan nad oedd y manylion cyswllt a nodwyd ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru na'r crynodebau o'r polisïau yn gyfredol mwyach ac nid oedd y ddogfen yn cofnodi nifer y plant y mae'r gwarchodwr plant wedi cofrestru i ofalu amdanynt yn gywir.

Gwnaethom yr argymhellion canlynol i'r gwarchodwr plant eu hystyried:

- rhoi prosesau mwy ffurfiol ar waith ar gyfer cynllunio gweithgareddau a chadw cofnodion am gynnydd pob plentyn er mwyn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer eu camau dysgu nesaf:
- labelu blychau teganau fel y gall y plant iau weld beth y maent yn ei gynnwys, a chreu cyfleoedd i wella eu hannibyniaeth;
- cadw cofnod o lanhau adnoddau a chyfarpar;
- dylai'r gwarchodwr plant sicrhau bod trefn ar yr holl waith papur sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff ei busnes gwarchod plant ei gynnal; a
- nodi/cadw cofnod o'r union ddyddiadau ar gyfer adolygu polisïau, asesiadau risg ac ansawdd y gofal ar bob dogfen.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 14 Mawrth 2019 rhwng 12:00pm a 3:40pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a gwneud sylwadau er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant;
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad,
- rhoi adborth manwl i'r gwarchodwr plant ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Wendy Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **4** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-8 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8:00 am a 6:00pm. O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Chwefror 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **14 Mawrth 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |